

## CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

### COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH, 11eg Hydref 2022 A GYNHALIWYD

#### YNG NGHANOLFAN TALYSARN AM 7.000'R GLOCH.

1. **Presennol** – Gwyndaf Roberts (cad), Hefina Roberts – Llanllyfni, Judith Humphreys, Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Dylan Herbert, Ceri Owen, – Penygroes, Harry Wyn Owen, Gareth Jones, Siân Dafydd, Peter Bridges – Talysarn, Ffion Jones – Nantlle. Cynghorydd Peter Thomas.

**Ymddiheuriadau** - Justin Davies - Penygroes, Christine Hughes – Llanllyfni, Dafydd Thomas – Nebo, Cynghorydd Dafydd Davies.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd.

2. **Datgan buddiant personol** – Ceri yn datgan diddordeb yn eitem 12 ar yr agenda - Cyfyngiadau parcio Penygroes.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod llawn 13eg Medi 2022** - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir a chytunodd pawb.

4. **Materion yn codi o'r cyn cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - yr arwydd Lôn Tyddyn Agnes nac yr arwydd dim ffordd trwodd dâl heb gael eu gosod yn nôl - adroddodd Cyng. Peter Thomas ei fod wedi cysylltu gyda nhw ers dros dair wythnos ac felly nawr wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y mater. Ymatebion wedi dod gan Gyngor Gwynedd am faterion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf ond dim o'r gwaith wedi ei gario allan eto.

5. **Adroddiadau gan y Cyngorwyr Sir** - roedd adroddiad wedi ei dderbyn gan Cyng. Peter Thomas a diolchwyd iddo am ei pharatoi. Rhoddwyd cyfle i holi ond nid oedd dim yn codi o'r adroddiad.

6. **Materion Pentrefi - Talysarn** - cwynion wedi eu derbyn nad oes modd cerdded llwybrau rhifau 11 a 15 oherwydd gordyfiant. Llwybr rhif 5 adroddiad bod yna ordyfiant yma hefyd a bod rhannau o'r waliau wedi dymchwel. Cwyn wedi ei dderbyn bod coed, dail a brigau wedi gordyfu tu ôl i'r stafell band a'i bod nawr yn tyfu fewn i'w safle ac yn creu difrod i'r adeilad - Cyng. Peter Thomas am gysylltu gyda Chyngor Gwynedd am hyn. Dŵr yn gollwng rhwng Y Bryn a rhif 13 Lôn yr Eglwys - Cyng. Peter Thomas am gysylltu gyda Bwrdd Dŵr am hyn. Gofyn oes posib holi Cyngor Gwynedd beth maent yn mynd i'w wneud am y canclwm sydd yn tyfu ar lwybr ger Ffordd Tal-y-llyn - wedi cysylltu gyda nhw am hyn o'r blaen ond dim wedi ei wneud a nawr yn gwaethygu. **Nantlle** - dim mater yn codi. **Penygroes** - adrodd bod y baneri wedi eu tynnu lawr am eleni. Y safle bws ynghanol Penygroes bellach wedi ei gau heb ddim rhybudd, dim amserlen wedi ei osod ar y safle yn islawr lle mae pobl fod i ddal y bws nawr. Ceir dal yn parcio ar y llinellau zigzag ar y sgwâr dim yn gweld yn cael ei wneud am y parcio anghyfreithlon. Canclwm yn tyfu yn y cilfan ar hen lôn Penygroes cyn cyrraedd cylchdro Inigo Jones ac yn gwaethygu. Y ddau safle bws ger y Co-op dal yn cael eu difrodi a rhaid nawr gwneud rhywbeth am y mater. Cynnig i gysylltu gyda Trystan Bevan aelod o'r heddlu am y mater. Twll yn y ffordd ger mynedfa Wynnstay ac angen sylw. Stryd Fawr a Heol Y Dŵr y tyllau yn gwaethygu ac angen sylw brys. Pant yn y fynedfa i'r maes parcio dros y ffordd i'r Co-op angen sylw. **Llanllyfni** - wedi derbyn e-bost gan Cyng. Craig ab Iago ynglŷn â phrynu safle'r Cwari i wneud safle parcio. Dylan Herbert yn gweld bod angen meddwl ymlaen blynnyddoedd i pan fydd ceir trydan yn fwy poblogaidd ac efallai mai safle'r Cwari fydd y man i gynnal safle ar gyfer 'chargo' y cerbydau hyn. Mae pris y safle yn £100,000 a thrafodwyd bod y pris hwn yn ormod ac ni fuasai modd i'r Cyngor Cymuned gael grantiau i'w brynu. Felly penderfynu mai ar hyn o bryd ni all y Cyngor Cymuned wneud dim am hyn. Y safle yn flêr ac angen sylw a'i dwtio - Cyng. Peter Thomas am gysylltu gyda'r perchnogion i ofyn iddynt wneud rhywbeth i wella'r safle. Y clerch i gysylltu gyda'r adrannau / sefydliadau perthnasol am y materion hyn.

7. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau** - Roedd Gwyndaf a Barry wedi cyfarfod gyda'r contractwyr torri llwybrau a mynwentydd i fynd drwy rhai pethau gyda nhw. Roedd pethau wedi eu trafod ynglŷn â'r contract ar gwaith sydd fod i gael ei gario allan ac erbyn hyn gwaith wedi ei wneud yn Fynwent Eglwys Sant Rhedyw ac mae wedi gwella yno, hefyd yn yr un modd yn y darn hynaf o Fynwent Macpela a phobl yn gweld y gwahaniaeth ac yn ddiolchgar iawn. Barry yn cynnig y dylid diolch i'r contractwyr am y gwaith, cytunodd pawb i'r clerch yrru llythyr/e-bost iddynt.

8. **Taflen ariannol a chyllid** - pawb wedi derbyn copi o'r gyfriflen ymlaen llaw i edrych drosti. Adroddodd Gareth fod arian y presept i gyda wedi ei dderbyn nawr ar gyllideb yn edrych yn dda. Cynigiodd Gareth y dylid cynnal is-bwyllgor er mwyn symud pethau o gwmpas yn y gyllideb gan fod pethau yn newid. Cytunodd pawb gyda hyn a'r clerch i drefnu dyddiad i gyfarfod.

9. **Llwybrau a Mynwentydd** - pris o £410 + TAW wedi ei dderbyn gan y contractwyr i dorri a chlirio llwybr Cross Street a hefyd pris o £940 + TAW ganddynt am redeg a chysylltu peipen ddŵr o Fynwent Macpela i'r cae fynwent newydd. Cynnig i adael hyn am nawr gan fod mater arall wedi codi yn y fynwent lle mae rhan o wal yno wedi dymchwel ac angen ei ail-chodi. Trafodwyd a gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r cwmni yswiriant i weld beth yw'r 'excess' os am wneud y gwaith trwy'r yswiriant.

10. **Ystafelloedd newid CPD Talysarn Celts** - e-bost wedi ei dderbyn gan gadeirydd y CPD a darllenodd Gwyndaf e fi bawb. Hefyd esboniodd Gwyndaf ei fod wedi derbyn galwad ddechrau mis Awst ynglŷn â phroblemau gyda'r cawodydd yn yr ystafelloedd. Adroddwyd bod y drysau wedi eu harchebu a pan fyddent yn cyrraedd yna bydd Sion Jones yn eu gosod. Dau bris wedi ei dderbyn ar gyfer y gwaith trydanol sydd angen ei wneud. Trafodwyd y prisiau a phenderfynwyd mynd gyda phris Gethin Fôn Williams. Trafodwyd hefyd mai ymatebol i Gyngor Gwynedd ydi'r Cyngor Cymuned am yr ystafelloedd a rhaid gwneud yn siŵr bod Cyngor Gwynedd yn hapus gyda'r gwaith sydd yn cael ei gario allan yno. Trafodwyd bod y CPD wedi codi pryderon ynglŷn â pheryglon yn yr ystafelloedd newid a phenderfynwyd hyd nes bydd y gwaith trydanol wedi ei gario allan yna ni fydd defnydd yn cael ei wneud o'r ystafelloedd. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r CPD i adrodd hyn wrthynt. Trafodwyd y gwaith a chynigiodd Harry a Ffion y dylid cario allan y gwaith a rhoi'r brydles nôl drosodd i Gyngor Gwynedd.

11. **Ceisiadau Cynllunio** – dim ceisiadau wedi dod i law felly dim i'w drafod.

12. **Cyfyngiadau parcio Penygroes** - (bu i Ceri Owen adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth yma oherwydd datgan diddordeb). Roedd pawb wedi cael copi o'r cyfyngiadau i edrych drostynt cyn y cyfarfod, a hefyd roedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn gwrthwynebiad gan Siop Griffith Cyf i hyn. Trafodwyd y mater a chynigiodd Dylan ac eiliwyd gan Erfyl na ddylid newid y cyfyngiadau a'u bod i aros fel ag y maent. Cytunodd pawb yn unfrydol i wrthwynebu.

13. **Yr Orsaf - Cwtin a Menter Iaith** - Cwtin - y Cyngor Cymuned sydd berchen Cwtin, ond codwyd y mater nad yw wedi ei gofrestru ar y gofrestrfa dir felly cynigiodd Gwyndaf y dylid gofyn i Siân os yw yn fodlon gwneud y gwaith hwn ar ran y Cyngor Cymuned - cytunodd pawb i hyn. Trafod ymhellach am gais Yr Orsaf wed ii hyn gael ei wneud. Menter Iaith - mwy na bodlon rhoi help llaw i'r Orsaf gyda hyn.

14. **Chwarel Dorothea - Parcio** - Tim Heatley wedi bod mewn cysylltiad yn gofyn am lythyr o gefnogaeth am arwydd i'r maes parcio. Dywedwyd wrtho mai fel pob cais cynllunio arall bydd y Cyngor Cymuned yn ymateb i hwnnw. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gydag Iwan ab Trefor i ofyn beth yw'r sefyllfa gyda phaentio'r llinellau melyn ar y cylchdro gan nad yw'r gwaith wedi ei wneud.

15. **Gohebiaeth**

- Cyngor Gwynedd – Ffliw Adar a cheidwaid dofednod lleol
- Y Grid Cenedlaethol - Prosiect atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Pentir a Trawsfynydd - trafodwyd a phenderfynwyd eu gwahodd i gyfarfod mis Tachwedd neu Ragfyr.

16. **Materion ariannol** - Cyngor Gwynedd – Costau Etholiad - **£535.00**  
- Lite – Golau Nadolig Llanllyfni - £4330+866 (tax) = **£5196.00**  
- Gwyndaf Roberts – cloeon giataiu cae Macpela - **£25.16**  
- Canolfan Talysarn – llogi ystafell ar gyfer cyfarfod - **£100.00**  
- Nia Jones – Stampiau - **£11.40**  
- Nia Jones - Ffôn a rhyngrwyd - **£25.00**

Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r uchod.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod.